Ar drothwy diwedd blwyddyn academaidd arall, hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i chwi oll, teulu Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr, am eich cefnogaeth barhaus unwaith eto eleni.

Bob blwyddyn mae'r cyfleoedd sydd ar gael i'r plant yn helaeth ac yn amrywiol gyda gwibdeithiau, ymweliadau, gwesteion a phrofiadau arbennig sy'n cyfoethogi ac yn cefnogi addysg ein disgyblion. Profodd yr ysgol lwyddiant ysgubol yn Eisteddfod yr Urdd ym Mae Caerdydd eleni gyda grwpiau ac unigolion yn cyrraedd y rownd genedlaethol mewn nifer o wahanol gystadlaethau. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt a diolch i'r holl staff sy'n rhoi o'u hamser i ymarfer a chefnogi'r plant. Mae'n brofiad bythgofiadwy i'r cystadleuwyr.

Mae'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon wedi bod yn weithgar dros ben. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi croesawu Cadeirydd newydd yn lle Cath Davies a fu wrth y llyw am bum mlynedd. Diolch yn fawr i Cath am ei holl waith caled dros y blynyddoedd. Rydym eisoes wedi gweld llwyddiant ei holynydd, Louise Davies, wedi i'r Ffair Haf godi dros £2,300. Mae gwaith y CRA yn ychwanegu'n sylweddol i gronfeydd ariannol yr ysgol ac yn mynd tuag at weithgareddau gadael blwyddyn 6, cost bysiau taith breswyl blwyddyn 5 i Blas Tan y Bwlch, anrhegion y plant yn ystod partïon Nadolig, nifer o brosiectau gwahanol ar safle'r ysgol, i enwi ond ychydig. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, a'r sector addysg yn wynebu toriadau pellach, mae'r arian hwn yn gymorth aruthrol i'r ysgol ac yn ein galluogi i gyflawni pethau na fyddai'n bosib fel arall. Yn yr un modd, mae holl ymdrechion gwirfoddolwyr, p'un ai yn codi arian at offer fel y Chrome Books i'r ysgol, gwella ardaloedd allanol fel yr ardal ger dosbarth Awstralia, neu'n treulio amser yn peintio, tacluso, garddio, trwsio, cefnogi darllen ac ati, yn adlewyrchiad o deulu arbennig Bryn-y-Môr a'r ymrwymiad i addysg y plant. Diolch o waelod calon i bob un ohonoch.

Rydym yn ffodus iawn yn Ysgol Bryn-y-Môr i gael aelodau arbennig o staff, ar bob lefel ac ymhob rhan o'r ysgol, a phob un yn cyfrannu rhywbeth unigryw at amser ein plant yn yr ysgol. Mae arweiniad cadarn y Pennaeth wedi bod heb ei ail unwaith eto eleni ac rwy'n ffyddiog bydd ei thymor olaf gyda ni yn un llwyddiannus arall. Mae'r Llywodraethwyr eisoes wedi dechrau'r broses o sicrhau olynydd a byddaf yn eich diweddaru maes o law. Ar y nodyn hwnnw, rhaid i mi ddiolch i bob aelod o'r Corff Llywodraethu am eu cefnogaeth dros y flwyddyn a'u parodrwydd i rannu eu hamser a'u harbenigeddau amrywiol er lles holl randdeiliaid yr ysgol.

Pob hwyl i ddisgyblion Blwyddyn 6 a mwynhewch weddill y dathlu!

Gan ddymuno haf hyfryd i chi,

Saran Thomas
Cadeirydd y Llywodraethwyr

As we approach the end of another academic year, I would like to express my gratitude to each and every one of you, the family of Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr, for your continued support once again this year.

Each year, the opportunities available to our children are numerous and varied with trips, visits, guests and unique experiences which enrich and enhance the education of our pupils. The school had great success in the Urdd Eisteddfod in Cardiff Bay this year with groups and individuals reaching the national round in many different competitions. Congratulations to all and thank you to the staff who give their time rehearsing and supporting the children. It's an unforgettable experience for the competitors.

The Parent Teacher Association has been very active. The PTA has welcomed a new Chair this year as Cath Davies, who was at the helm for five years, stepped down. Thank you very much to Cath for all her hard work over the years. We have already seen the efforts of Louise Davies, Cath's successor, pay off with the Summer Fair raising over £2,300. The work of the PTA contributes significantly to the school funds and helps towards the activities for year 6 leavers, the cost of transport for the year 5 residential to Tan y Bwlch, Christmas party gifts for the children, numerous projects on the school site to name but a few. In the current economic climate and the education sector facing further cuts, this money is an enormous help to the school and enables us to undertake projects which wouldn't be possible otherwise. Likewise, the efforts of volunteers, whether raising money for equipment such as Chrome Books, improving outdoor areas like the work we've seen near the Awstralia classroom, or spending time painting, tidying, gardening, fixing, supporting with reading and so on, is a reflection of the very special family of Bryn-y-Môr and the commitment towards the education of the children and the support to the school. Thank you to each and every one of you.

We are very lucky at Ysgol Bryn-y-Môr that we have wonderful members of staff on every level, and in all areas of the school and each one contributes something unique to our children's time in the school. The Head's strong leadership has been second to none again this year and I have no doubt that her last term with us will be successful. The Governing Body have started the process of securing a successor and will update you as necessary. I would like to thank each of the Governors for their support during the year and their willingness to share their time and various expertise which benefit each of the school's stakeholders.

Best of luck to all year 6 pupils and enjoy the rest of the celebrations!

Wishing you a lovely summer,

Saran Thomas
Chair of Governors